



EIDALAIDD!

45MUNUD-LAWR

- Defnyddio mapiau o'r byd, atlasau a globau i adnabod y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r gwledydd, cyfandiroedd a chefnforoedd sy'n cael eu hastudio yn y cyfnod allweddol yma.
- Defnyddio cyfeiriadau cwmpawd syml (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin) ac iaith leoliadol a chyfeiriadol [er enghraifft, pell ac agos; chwith a dde], i ddisgrifio lleoliad nodweddion a llwybrau ar fap.
- Lleoli gwledydd y byd, gan ddefnyddio mapiau i ganolbwyntio ar Ewrop (gan gynnwys lleoliad Rwsia) a Gogledd a De America, gan ganolbwyntio ar eu rhanbarthau amgylcheddol, nodweddion allweddol ffisegol a dynol, gwledydd a dinasoedd mawr.
- Deall a chymhwyso egwyddorion diet iach ac amrywiol.

AMCAN DYSGU

- Cyflwyniad pwynt pwêr ar gyfer y wers.
- Dewis o gorbwmpenni gwyrdd a melyn a Pwmpen Cnau Melyn / Butternut Squash.
- Cyllell a bwrdd torri i agor y Bwmpen Cnau Melyn.
- Papur plaen, pensiliau lliw.
- Dewisol: Chwyddwydr.

ADNODDAU

1. Os yw'n berthnasol, ailadroddwch y wers flaenorol a phwyntiau daearyddol, gan ofyn i'r plant rannu rhywfaint o'r wybodaeth a ddysgwyd ganddynt a lleoli'r ardal ar fap o'r byd.
2. Ble chi'n meddwl mae hwn?
3. Beth ydych chi'n ei wybod yn barod am yr Eidal?
4. Gofynnwch i'r plant i leoli yr Eidal ar fap y Byd, gan ddefnyddio geiriau fel Dwyrain a Gorllewin wrth sôn am wledydd Ewropeaidd eraill falle byddai'r plant wedi clywed amdanynt.
5. Siaradwch gyda'r plant am y math o fwyd y mae'r Eidal yn adnabyddus amdano: Mae gan yr Eidal hanes cyfoethog ac amrywiol. Dros 2000 o flynyddoedd yn ôl dyma oedd canolbwynt yr Ymerodraeth Rufeinig. Pan chwalodd yr ymerodraeth enfawr hon, rhannwyd y tiriogaethau yn deyrnasoedd, gweriniaethau a dinasoedd ar wahân

Mae'r Eidal gyfoes yn cynnwys 20 rhanbarth gwahanol, pob un â'i harferion a'i thraddodiadau ei hun. Mae pysgod a bwyd môr yn doreithiog ar hyd yr arfordir ac mae ynys Sisili yn enwog am ei orennau llawn sudd. Mae rhan ddeheuol y wlad yn enwog am blanhigion wy a farsychgall (artichokes), pupurau a thomatos. Mae rhanbarth Tuscany yn enwog am wneud olew olewydd tra bod Parma yn enwog am ei gaws a'i ham.

Mae coginio a ryseitiau Eidalaid wedi dod yn enwog ledled y byd. Gallwch ddod o hyd i bitsa yn rhan fwyaf o ddinasoedd y byd ynghyd â llawer o fwytai Eidalaid sy'n gwerthu pasta a risottos.

BRASLUN Y WERS

PARHAU

Dangoswch y corbwmpen neu bwmpenni i'r plant a gofynnwch iddyn nhw ydyn nhw'n gwybod beth ydynt? Eglurwch fod corbwmpenni yn dechrau fel hedyn yn y ddaear ac yn tyfu i fod yn blanhigyn y gallwn ei fwyta. Mae corbwmpen yn rhan o'r teulu pwmpen sy'n perthyn i'r grwp "llysiau", er ei fod yn fotanegol yn ffrwyth gan ei fod yn tyfu o flodeuyn y planhigyn. sy'n perthyn i'r grŵp llysiau er, yn fotanegol, mae'n ffrwyth oherwydd ei fod yn tyfu o flodyn planhigyn.

Gofynnwch i'r plant ydyn nhw'n gallu enwi ein pum synnwyr. Adolygwch y pum synnwyr: golwg, arogl, clywed, blasu a chyffwrdd. Dywedwch wrth y plant ein bod yn mynd i ddefnyddio ein synhwyrau i ddarganfod sut mae gwahanol fathau o bwmpen yr un peth a sut maen nhw'n wahanol.

Archwiliwch (grwpiau bach ac wrth y bwrdd)

Golwg: Dangoswch wahanol fathau o gorbwmpenni a phwmpenni i'r plant.

Gofynnwch i'r plant rannu sut mae'r llysiau'n edrych, er enghraifft, y siâp a'r lliw. Gofynnwch i'r plant pa bwmpen yw'r mwyaf neu'r hiraf, a pha un yw'r lleiaf neu'r byrraf.

Yna gall y plant dynnu llun y corbwmpenni. Torrwch nhw ar agor a dangoswch y tu mewn. Sut mae'n edrych - a yw'n lliw gwahanol? Defnyddiwch chwyddwydr neu ficrosgop i adael i'r plant gael golwg agosach!

Arogl: Gofynnwch i'r plant arogl i'r pwmpen a thrafodwch.

Cyffwrdd: Gofynnwch i'r plant gyffwrdd a dal y bwmpen. Gall rhai fod yn llyfn, tra bod eraill yn anwastad. Gofynnwch i'r plant pa un yw'r trymaf, a'r ysgafnaf. Trafodwch gyda'r plant fod gan pwmpen yr haf, fel corbwmpenni gwyrdd a melyn, groen tenau a thyner, tra bod gan pwmpenni'r gaeaf groen caled, trwchus.

Clywed: Eglurwch fod rhai pobl yn gwneud offerynnau allan o lysiau. Gallwch chi chwarae'r fideo hwn sy'n cynnwys offerynnau pwmpen(fideo yn Saesneg):

<https://www.youtube.com/watch?v=xM1EjIDLMLY>

Llenwi'r wybodaeth o'r wers ar y map

O'r wybodaeth sydd wedi cael ei rannu yn y wers heddiw, cwblhewch y blwch ar fap y byd y plant sy'n berthnasol i'r Eidal

BRASLUN Y WERS

Ceisiwch dorri y corbwmpenni mewn ffyrdd gwahanol i ddangos sut mae nhw'n cael eu paratoi ar gyda ryseitiau.

GWEITHGAREDDAU PELLACH / GWAITH CARTREF



AM FWY O ADNODDAU ADDYSG ARBENNIG EWCH I:

EAT THEM TO DEFEAT THEM.COM

© Veg Power CIC 2024

EIDALAIDD

